



## Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Y canlynol yw ein hymrwymadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2018/19.

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<b>A - Atal Tlodi</b>		
Byddwn yn cyflwyno pecyn cymorth a chyngor wedi'i gynllunio i helpu tenantiaid newydd i gadw eu tenantiaethau. (Cyf. 13147)	✓	Byddwn yn cyflogi swyddog prosiectau i gychwyn er mwyn rhoi'r cynigion ar waith. Ers hynny rydym wedi cyflogi 3 swyddog arall i ffurfio tîm newydd i ddarparu pecyn o gyngor a chymorth i bob tenant newydd. Rydym yn cwrdd â phob tenant newydd ac yn trafod: <ul style="list-style-type: none"><li>• eu cyfrifoldebau fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth</li><li>• sut i dalu eu rhent</li><li>• gwneud cais am fudd-dal</li></ul> Cychwynnwyd pecynnau hyfforddiant lle mae darpar denantiaid ar ein Cofrestr Dewis Tai yn ymgymryd â chwrs 1 diwrnod lle mae materion tenantiaeth yn cael sylw manylach.
Byddwn yn asesu'r opsiynau ar gyfer sicrhau gwelliannau o ran effeithlonrwydd ynni mewn tai Cyngor. (Cyf. 13148)	✓	Rydym wedi nodi cynllun bach y byddwn yn cael cymorth ar ei gyfer o ran cost technolegau gan brosiect SPECIFIC 2 LCBE, sy'n cael ei gyllido'n rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r 'dull gweithredu ar sail systemau' yn cyfuno cyflenwi ynni adnewyddadwy, storio ynni a thechnolegau lleihau'r galw am ynni, gan greu ymagwedd gyfannol at ôl-ffitio. Yr atebion a gynigir yw: <ul style="list-style-type: none"><li>• Inswleiddio waliau allanol;</li><li>• Inswleiddio'r atig;</li><li>• Goleuo Deudau Allyrru Golau (LED);</li><li>• Awyru mecanyddol gan adfer gwres;</li><li>• Boeleri nwy effeithlonrwydd uchel;</li><li>• Ynni'r haul ffotofoltaidd; a</li><li>• Batris Lithiwm ion.</li></ul> Cytunwyd ar y Fanyleb ac mae Pen-gontractwr wedi'i benodi. Ar ôl cwblhau'r gwaith, byddwn yn dadansoddi canlyniadau gosod technoleg carbon isel o ran costau, manteision i denantiaid a hwylustod defnydd. Bydd hyn yn ein galluogi i ddeall yn well y potensial ar gyfer helpu tenantiaid i leihau eu biliau ynni, gwella pa mor gysurus yw eu cartrefi, a lleihau allyriadau carbon i'r lefelau a bennir gan Lywodraeth Cymru.
Byddwn yn datblygu Strategaeth Ddigartrefedd newydd i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael y cymorth priodol i gynnwys: <ul style="list-style-type: none"><li>- Datblygu dewisiadau tai i bobl sengl</li><li>- Datblygu cynllun i sicrhau bod pobl ddigartref yn cael mynediad at wasanaethau iechyd</li><li>- Adolygu ein dull o reoli llety dros dro</li></ul>	✓	Mae Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol newydd wedi cael ei llunio a chytunwyd arni gan y Cyngor llawn ym mis Ionawr 2019. Bydd y camau allweddol canlyniadol yn rhan o'r camau gweithredu Adranol ar gyfer 2019/20. Mae'r strategaeth yn nodi saith blaenoriaeth allweddol sy'n cael eu cefnogi gan ystod o gamau gweithredu lefel uchel. Y blaenoriaethau hyn yw:

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
(Cyf 13149) <b>MFS-50</b>		<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Parhau i ddatblygu a manteisio ar wasanaethau yn y gymuned i gynorthwyo yn y gwaith o atal digartrefedd;</li> <li>2. Drwy ddefnyddio gwybodaeth, archwilio sut y gallwn ffocysu cymorth i aelwydydd yn yr ardaloedd hynny lle y ceir y gyfran uchaf o bobl ddigartref er mwyn atal digartrefedd;</li> <li>3. Defnyddio systemau TG a thechnoleg i atal digartrefedd drwy sicrhau bod systemau ar waith sy'n nodi materion yn gynnar er mwyn sicrhau cymorth a chynghor cyn gynted â phosibl;</li> <li>4. Mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol, archwilio sut y gall dull aml-asiantaeth o reoli achosion ddatblygu i ddiwallu anghenion aelwydydd sy'n ymwneud â'r system digartrefedd ac yn rhoi pwysau ar amrywiaeth o wasanaethau;</li> <li>5. Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid lleol a gwasanaethau statudol eraill, archwilio a oes modd datblygu dull 'Tai yn Gyntaf' i gefnogi'r rheiny sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth;</li> <li>6. Pob awdurdod, gyda'i Gymdeithas Tai a'i bartneriaid landlordiaid preifat, yn datblygu opsiynau tai fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer pobl sengl; ac</li> <li>7. Pob awdurdod yn meithrin partneriaeth waith agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith er mwyn lleihau unrhyw effaith y gallai cyflwyno Credyd Cynhwysol ei chael ar allu aelwyd i gadw ei thenantiaeth.</li> </ol>
<p>Byddwn yn cynyddu canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag mynd yn ddigartref</p> <p><i>(PAM/012)</i></p> <p style="text-align: center;"><i>(Canlyniad 2017/18 - 65.1% / Targed 2018/19 - 68%)</i></p>	x	<p><b>Canlyniad 2018/19 - 59.5 (259/435).</b></p> <p>Er ein bod wedi methu ein targed eleni, i roi hyn yn ei gyd-destun rydym ond wedi atal 10 yn llai o achosion na'r llynedd. Yn ychwanegol at hyn, roedd 42 o achosion naill ai wedi colli cysylltiad/methu ymgysylltu â ni neu wedi gwrthod cymorth gennym, felly ni ellid eu cofnodi fel achos atal.</p> <p>Yn sgil cyflwyno Credyd Cynhwysol, rydym wedi sylwi bod landlordiaid preifat yn amharod i barhau gyda thenantiaid sy'n hawlio budd-dal. Hefyd mae tenantiaid o'r sector preifat yn cysylltu â'r gwasanaeth pan maent ar fin cael eu troi allan yn hytrach na phan maent yn cael rhybudd. O ganlyniad, ychydig iawn o amser sydd i ymgysylltu â'r landlord er mwyn atal neu unioni'r sefyllfa. Mae hwn yn fater rydym wedi ei nodi fel rhan o'n hadolygiad digartrefedd diweddar a datblygu ymagwedd strategol newydd.</p>
<p>Byddwn yn parhau i weithio tuag at roi sylw i'r bylchau mewn gofal plant a nodwyd yn ein Hasesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant mwyaf diweddar (2017-2022), er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyflawni ei ddyletswydd statudol o ran digonolrwydd gofal plant, a bod rhieni/gofalwyr lleol yn derbyn cymorth i gael</p>	✓	<p>Mae sesiynau galw heibio yn y Canolfannau Teulu Integredig (ICC) ac mae sesiynau briffio misol ar gyfer gwarchodwyr plant mewn ardaloedd penodol wedi'u cynnal drwy gydol y flwyddyn. Mae cymorth i ymgeisio a chymorth ar ôl cofrestru yn cael eu rhoi fesul unigolion a thrwy sesiynau mewn grwpiau bach. Yn ystod 2018/19 mae 12 o warchodwyr plant newydd wedi'u cofrestru; 9 o sesiynau briffio i</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
hyd i gydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gweithio a gofalu. (Cyf. 13150)		warchodwyr plant wedi'u cynnal; 7 o sesiynau galw heibio; ac mae 24 o ymgeiswyr wedi mynychu cwrs gwarchodwyr plant CYPOP5 (9 o ardaloedd a dargedwyd). Mae gennym <b>107 o warchodwyr plant</b> yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, sy'n cynnig cyfanswm o <b>767 o leoedd gofal plant cofrestredig</b> . Mae'r gwaith hyrwyddo'n parhau.
Byddwn yn gwella'r sgôr gyfartalog wedi'i chapio 9 ar gyfer disgyblion ym mlwyddyn 11 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (4.1.2.4) (Canlyniad 2017/18 - 307.6 Blwyddyn Academaidd 2016/17 / Targed 2018/19 - 308.5 Blwyddyn Academaidd 2017/18)	x	Cyflawnwyd <b>sgôr gyfartalog 9 wedi'i chapio o 308.1</b> gan ddisgyblion blwyddyn 11 oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim yn ystod Blwyddyn Academaidd 2017/18. Er gwaethaf y targed, mae'r canlyniad wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol. Ein canlyniad ni yw'r 6ed gorau yng Nghymru ac mae'n uwch o dipyn na chyfartaledd Cymru o 291.1. Mae hwn yn ganlyniad da iawn o hyd i'r Awdurdod ac mae'n adlewyrchu effaith cydweithio rhwng ein Tîm Gwella Ysgolion ac uwch-arweinwyr yr ysgol a'r staff.
<b>B - Helpu Pobl i gael Gwaith</b>		
Byddwn yn cynyddu nifer yr oedolion sy'n teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus ynghylch ceisio gwaith ar ôl cael cymorth cyflogadwyedd drwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. (EconD/020) (Canlyniad 2017/18 – 100% / Targed 2018/19 – 100%)	✓	Roedd pob un o'r <b>589 (100%)</b> o oedolion a gafodd gymorth cyflogadwyedd drwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy yn teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus am chwilio am waith.
Byddwn yn sicrhau bod nifer fawr o drigolion yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio cyfrifiadur ac yn ennill sgiliau TG ar ôl derbyn cymorth cynhwysiant digidol drwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. (EconD/021) (Canlyniad 2017/18 – 100% / Targed 2018/19 – 100%)	✓	Roedd pob un o'r <b>418 (100%)</b> o oedolion a gafodd gymorth cyflogadwyedd drwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy yn teimlo'n fwy cadarnhaol ac yn fwy hyderus am chwilio am waith.
Byddwn yn cynyddu nifer y cymwysterau achrededig a gyflawnir gan drigolion sy'n mynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth yn rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy. (EconD/022) (Canlyniad 2017/18 - 327 / Targed 2018/19 - 330)	✓	Cafodd <b>402 o gymwysterau achrededig</b> eu cyflawni gan drigolion a oedd yn mynychu cyrsiau cysylltiedig â Chyflogaeth o fewn y rhaglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy yn ystod 2018/19, sy'n gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ac yn cydymffurfio â'r targed.
<b>C – Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tldi</b>		
Byddwn yn datblygu prosiect peilot yn ward Ty-isa i ddatblygu ffyrdd o fynd i'r afael â thlodi yn yr ardal. (Cyf 13151) MFS-75	✓	Y cam cyntaf o ran ymgysylltu cymunedol wedi'i gymryd gyda'r ymgynghorwyr 'Arcadis'. Rydym bellach yn ymgymryd â gwaith datblygu sy'n seiliedig ar ymgynghori a thrafodaethau pellach â rhanddeiliaid allweddol er mwyn datblygu Prif Gynllun ar gyfer y gymuned yn y dyfodol. Disgwylir fersiwn drafft o'r Prif Gynllun erbyn Mehefin 2019
Byddwn yn gweithio gyda'r trydydd sector a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r ystod o wasanaethau cymorth a ddarperir yn y sir ar draws nifer o feysydd gwasanaeth yn ogystal â	✓	Mae'r Biwro Cymunedol wedi helpu grwpiau cymunedol, gwirfoddol ac elusennol a mentrau cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin i gael cymorth, cyngor a grantiau'n gyflym. Yn ystod y flwyddyn, mae 5 o fentrau wedi'u creu, 25 o swyddi wedi'u creu, 50 o

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
datblygu ymhellach gyfleoedd gwirfoddoli yn y sir. (Cyf 13152) MF5-80		swyddi wedi'u diogelu a 350 o unigolion wedi dechrau cael hyfforddiant/addysg. Mae gan y Biwro berthynas waith agos â CAVS ac rydym wedi helpu 450 o bobl i wirfoddoli.
Byddwn yn ymestyn y model Hwb a ddatblygwyd yn Llanelli i Rydaman a Chaerfyrddin, gan wneud gwasanaethau cymorth rheng flaen yn fwy hygyrch i drigolion. (Cyf 12560) MF5-83	✗	Agorwyd yr Hwb yn Stryd y Cei, Rhydaman, ar 10 Rhagfyr 2018 gan ddod â'r gwasanaeth i Ganol y Dref. Mae'r Hwb yn Rhydaman yn ymdrin â 1100 o apwyntiadau bob mis ar gyfartaledd. Mae Desg Dalu ym mhob Hwb ac mae hynny'n denu pobl i'r canolfannau. Yn ogystal â hyn mae gennym brosiectau cyflogadwyedd drwy ein partneriaid, Gweithffyrdd+, Cymunedau am Waith, a Chymunedau am Waith a Mwy yn Rhydaman a Llanelli yn barhaol
Byddwn yn datblygu rhagor o drefniadau partneriaeth mewn perthynas â cham-fanteisio ariannol. (Cyf. 13154)	✓	Rydym yn parhau i wneud cynnydd gyda'r fenter ac i ddatblygu perthnasoedd gyda sefydliadau sy'n bartneriaid. Rydym wedi cwrdd â gwasanaethau cymorth hyblyg y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Gofalu ac Adsefydlu Troseddwyr (NACRO) sydd wedi cytuno i gymryd rhan yn fenter. Rydym wedi cytuno ar gytundeb lefel gwasanaeth gyda Llesiant Delta er mwyn darparu gwasanaethau gosod ar gyfer prosiect rhwystro galwadau niwsans <i>Truecall</i> . Ar hyn o bryd mae swyddogion yn hyfforddi <i>Delta Installers</i> a byddant yn cymryd y gwaith gosod drosodd yn llawn o fis Ebrill 2019 ymlaen.
Byddwn yn hyrwyddo llythrennedd ariannol ac yn diogelu pobl agored i niwed rhag twyll ariannol drwy'r Cynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol. (Cyf. 13155)	✓	Er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag ymgysylltu â'r Heddlu, mae swyddog wedi'i benodi i'r Grŵp Troseddau Cyfundrefnol Difrifol Tactegol ac mae cyfarfodydd wedi'u trefnu gyda swyddogion gwybodaeth leol yr heddlu i drafod trefniadau rhannu gwybodaeth. Yn ddiddorol ddigon rydym wedi gweld atgyfeiriadau'n cael eu dychwelyd gan aelodau Banc yn ystod y chwarter hwn. O ran addysg ariannol, rydym yn parhau i ddatblygu'r adnoddau presennol ac yn ychwanegu atynt gyda golwg ar ddatblygu "Wythnos Synnwyr Arian" ledled y sir, ynghyd â chystadleuaeth rhwng ysgolion i wella ymgysylltiad.
Byddwn yn cyflwyno ein Hapêl Teganau a Hamperi i'r plant a'r teuluoedd hynny y dywedwyd wrthym fod angen rhywfaint o gymorth arnynt. (Cyf. 13156)	✓	Roedd Apêl Nadolig y Cyngor 2018 yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad i haelioni'r trigolion a'r staff llwyddwyd i ddosbarthu 207 o hamperi bwyd a 150 o becynnau llesiant i bobl ifanc a theuluoedd, yn ogystal â thros 6,000 o deganau i 1,000 o blant a oedd mewn angen dros gyfnod y Nadolig. Roedd yr ymateb i'r cais am deganau ychwanegol yn dilyn cynnydd sylweddol yn yr enwebiadau yn rhyfeddol ac yn dangos bod pobl Sir Gâr yn garedig ac yn hael.
Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn rhoi cymorth i'r bobl sy'n hawlio budd-daliadau ar hyn o bryd ac a fydd yn symud i Gredyd Cynhwysol o fis Mawrth 2018 ymlaen. (Cyf 13157) MF5-94	✓	Mae darparu cyngor a chymorth technegol/arbenigol i wasanaeth darparu Credyd Cynhwysol yr Adran Gwaith a Phensiynau bellach yn broses sydd wedi'i hen sefydlu yn yr adain Budd-dal. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cyllidebu Personol yn darparu cymorth ariannol a chyllidebu personol i gwsmeriaid y nodwyd bod angen cymorth ariannol arnynt. Datblygu

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
		cynlluniau cymorth cyllidebu personol ar gyfer cleientiaid unigol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad bregusrwydd ariannol a gynhaliwyd. Mae hefyd yn cydweithio â darparwyr cyngor a chymorth ledled Sir Gaerfyrddin i sicrhau bod atgyfeiriadau effeithiol yn cael eu gwneud i sefydliadau sy'n bartneriaid.
Byddwn yn cynnal y nifer cyfartalog is o ddiwrnodau a gymerir i brosesu hawliadau Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor newydd (6.6.1.2) (Canlyniad 2017/18 - 22.77 diwrnod /Targed 2017/18 - 21 diwrnod)	✘	<b>Canlyniad 2018/19 - 22.55 o ddiwrnodau.</b> Mae'r canlyniad hwn ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol ac nid yw'n cydymffurfio â'r targed. Mae staff newydd wedi bod drwy raglen hyfforddi ddwys ac yn parhau i gael mentora'n agos. Oherwydd cymhlethdod y system fudd-daliadau, bydd yn cymryd amser i aseswyr newydd gyrraedd lefel perfformiad swyddogion profiadol, ond maent yn delio'n foddhaol iawn â'r achosion llai cymhleth. Mae Credyd Cynhwysol wedi effeithio ar berfformiad awdurdodau yn gyffredinol a byddwn yn parhau i fonitro perfformiad ac allbwn.
Byddwn yn cynnal nifer cyfartalog is y diwrnodau a gymerir i brosesu hysbysiadau ynghylch newid amgylchiadau wrth hawlio Budd-dal Tai/y Dreth Gyngor (6.6.1.3) (Canlyniad 2017/18 - 5.27 o ddiwrnodau / Targed 2018/19 - 5.5 o ddiwrnodau)	✓	<b>Canlyniad 2018/19 - 4.26 o ddiwrnodau.</b> Mae hwn yn welliant ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol ac mae'n cydymffurfio â'r targed.
Byddwn yn cynnal y % uchel o hawliadau Budd-dal Tai / y Dreth Gyngor a gyfrifwyd yn ddiweddar sydd wedi cael eu cyfrifo'n gywir, ar sail gwirio sampl (6.6.1.9) (Canlyniad 2017/18 - 98.13% / Targed 2018/19 - 96%)	✘	<b>Canlyniad 2018/19 - 94.9%.</b> Nid yw'r dangosydd hwn yn cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad ac mae'n bosibl y bydd yn amrywio. O ystyried cymhlethdod y cynllun Budd-dal Tai, cyflwyno Credyd Cynhwysol ym mis Rhagfyr 2018 a nifer uchel y staff newydd a dibrofiad yn yr adran, mae hyn yn parhau i fod yn ganlyniad cadarnhaol iawn. Bydd gwallau a nodwyd yn cael eu dadansoddi o hyd a bydd unrhyw dueddiadau yn cael sylw mewn sesiynau briffio i'r staff a hyfforddiant ychwanegol lle bo'r angen.
Byddwn yn parhau i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei drin yn deg a chyda pharch, gan weithio tuag at gyflwyno Cyflog Byw Cymru i'r staff hynny ar y bandiau cyflog isaf. (Cyf 13158) MF5-97	✓	Roedd y Cyngor Sir yn falch o gael cyhoeddi ym mis Mawrth 2018 y byddai'n talu swm cyfwerth â'r <i>Living Wage Foundation</i> (lefel cyflog byw gwirfoddol) i'w staff drwy daliad atodol a gaiff ei adolygu fel rhan o'r Polisi Tâl bob blwyddyn. Mae hyn yn effeithio ar y staff ar y cyflogau isaf a fydd yn derbyn yr hyn sy'n cyfateb i £8.75 yr awr (Ebrill 2018), sy'n uwch na'r Cyflog Byw Cenedlaethol (gofyniad statudol) o £7.83 (Ebrill 2018).
Byddwn yn gweithredu Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (Newyn Gwyliau), gan gefnogi teuluoedd a phlant yn ystod gwyliau ysgol i goginio prydau iach, ac anelu'n benodol at ddisgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. (Cyf. 13159)	✓	Cafodd y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol ei rhoi ar waith yn llwyddiannus yn y 4 ysgol a ddewiswyd fel y cynlluniwyd dros haf 2018. Rydym yn parhau i gasglu gwybodaeth ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, gan gynnwys gwersi a ddysgwyd, holiaduron gan ddisgyblion, rhieni, staff ac ati er mwyn gwella wrth symud ymlaen ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae cydgysylltydd Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol newydd bellach yn ei swydd.